**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

## CYNNWYS

**RHAN 1**

CYSYNIADAU ALLWEDDOL AC AMCANION CYFFREDINOL

*Cysyniadau allweddol*

1 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol"
2 Ystyr "man esgyn" a "man disgyn"
3 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" a "gwasanaeth bysiau lleol safonol"

*Amcanion*

4 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw i amcanion

**RHAN 2**

SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION CYMRU SY'N YMWNEUD Â GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

*Dyletswyddau craidd Gweinidogion Cymru*

5 Gwasanaethau bysiau lleol: dyletswyddau craidd

*Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru*

6 Llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru
7 Adolygu a diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru
8 Darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

*Contractau gwasanaeth bysiau lleol*

9 Contractau gwasanaeth bysiau lleol
10 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch contractau gwasanaeth bysiau lleol

*Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol*

11 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol
12 Cyfnod y mae trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael effaith

13 Amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol
14 Ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol
15 Dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a'u hatal dros dro
16 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol: apelau

*Gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Weinidogion Cymru*

17 Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau lleol

*Dibynnu ar wasanaethau penodol*

18 Dibynnu ar wasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau eraill penodol at ddibenion dyletswydd adran 5(1)(c)

*Gwasanaethau trawsffiniol*

19 Gwasanaethau trawsffiniol a'r ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu

*Gofynion adrodd*

20 Adroddiad ar gynnydd tuag at amcanion adran 4

**RHAN 3**

CYFYNGIAD AR DDARPARU GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

21 Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol
22 Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu comisiynydd traffig am unrhyw achos o dorri'r cyfyngiad
23 Gorfodi'r cyfyngiad
24 Gorfodi cyfyngiad: apelau

**RHAN 4**

GWYBODAETH A DATA

*Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion arfer swyddogaethau penodol*

25 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru gan weithredwyr presennol a chyn-weithredwyr at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2 neu Ran 3
26 Darparu gwybodaeth am seilwaith a materion eraill penodol i Weinidogion Cymru gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2

*Gwybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd*

27 Dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cyhoedd
28 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion adran 27

*Braint gyfreithiol*

29 Darparu gwybodaeth: eithriad ar sail braint gyfreithiol

*Gorfodi*

30 Gorfodi gofynion gwybodaeth
31 Gorfodi gofynion gwybodaeth: apelau

**RHAN 5**

PWERAU A DYLETSWYDDAU AWDURDODAU LLEOL

32 Darparu gwasanaethau bysiau gan awdurdodau lleol: dileu'r cyfyngiad
33 Dileu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol
34 Cymorth ariannol mewn cysylltiad â gwasanaethau bysiau lleol

**RHAN 6**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Trosglwyddo ymgymeriadau*

35 Cymhwyso Rheoliadau TUPE

*Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestru gwasanaethau â chomisiynydd traffig*

36 Deddf Trafnidiaeth 1985: dileu gofynion sy'n ymwneud â chofrestru

*Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu*

37 Cyfyngu ar y pŵer i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu o dan adran 7 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006

*Cyffredinol*

38 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon
39 Rhoi hysbysiadau etc.
40 Dehongli cyffredinol
41 Mynegai o dermau wedi eu diffinio
42 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.
43 Dod i rym
44 Enw byr

# Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rheoleiddio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL AC AMCANION CYFFREDINOL

*Cysyniadau allweddol*

### 1 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol"

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, gwasanaeth yw gwasanaeth bysiau lleol ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, am daliadau teithio ar wahân, gan ddefnyddio un neu ragor o gerbydau gwasanaeth cyhoeddus, sydd—

(a) yn bodloni'r amod yn is-adran (3), a

(b) ag un neu ragor o fannau esgyn neu fannau disgyn yng Nghymru.

(2) Ond nid yw cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at wasanaeth bysiau lleol yn cynnwys cyfeiriadau at—

(a) gwasanaeth adran 19 (gweler adran 40(1) ynghylch hynny);

(b) gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 (gweler adran 40(1) ynghylch hynny);

(c) gwibdaith neu gylchdaith;

(d) gwasanaeth yn lle trên.

(3) Mae gwasanaeth yn bodloni'r amod yn yr is-adran hon os, yn achos pob un o'i fannau esgyn—

(a) yw'r man disgyn nesaf o dan 15 milltir i ffwrdd (o fesur mewn llinell syth), a

(b) nad oes unrhyw fan ar y llwybr rhwng y man esgyn hwnnw a'r man disgyn hwnnw sydd 15 milltir i ffwrdd, neu'n fwy na 15 milltir i ffwrdd, o'r naill neu'r llall ohonynt (o fesur mewn llinell syth).

(4) At ddibenion yr adran hon—

(a) mae i "cerbyd gwasanaeth cyhoeddus" yr ystyr a roddir i "public service vehicle" yn adran 1 o Ddeddf 1981;

(b) mae i "gwibdaith neu gylchdaith" yr ystyr a roddir i "excursion or tour" yn adran 137(1) o Ddeddf 1985;

(c) gwasanaeth yw "gwasanaeth yn lle trên" ar gyfer cludo teithwyr, yn lle gwasanaeth rheilffyrdd i deithwyr sydd wedi ei atal dros dro neu sydd wedi ei derfynu.

(5) Pan fyddai rhan o wasanaeth anghymwys yn bodloni'r amod yn is-adran (3) pe bai'r rhan honno'n wasanaeth ynddo'i hun, mae'r rhan honno ei hun i'w thrin fel pe bai'n wasanaeth bysiau lleol at ddibenion y Ddeddf hon heblaw'r ddyletswydd yn adran 5(1)(a).

(6) At ddibenion is-adran (5) gwasanaeth yw "gwasanaeth anghymwys" (heblaw un o fewn is-adran (2)) ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd am daliadau teithio ar wahân, gan ddefnyddio un neu ragor o gerbydau gwasanaeth cyhoeddus, y mae ganddo un neu ragor o fannau esgyn neu fannau disgyn yng Nghymru, ond nad yw'n bodloni'r amod yn is-adran (3).

(7) Mae is-adran (5)(b) ac (c) o adran 1 o Ddeddf 1981 (ystyr "fares") yn gymwys mewn perthynas â "taliadau teithio" at ddibenion yr adran hon fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r term Saesneg cyfatebol "fares".

## 2 Ystyr "man esgyn" a "man disgyn"

Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at "man esgyn", mewn perthynas â gwasanaeth, yn gyfeiriadau at unrhyw fan ar ei lwybr y caniateir esgyn i'r gwasanaeth ynddo (pa un a ganiateir i deithwyr hefyd ddisgyn oddi ar y gwasanaeth yn y man hwnnw ai peidio);

(b) mae cyfeiriadau at "man disgyn", mewn perthynas â gwasanaeth, yn gyfeiriadau at unrhyw fan ar ei lwybr y caniateir disgyn oddi ar y gwasanaeth ynddo, ac eithrio yn achos argyfwng (pa un a ganiateir i deithwyr hefyd esgyn i'r gwasanaeth yn y man hwnnw ai peidio).

## 3 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" a "gwasanaeth bysiau lleol safonol"

Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" yn gyfeiriadau at wasanaeth bysiau lleol sydd, er gwaethaf bodolaeth unrhyw rannau cyfyngedig o'r llwybr sy'n sefydlog, mor hyblyg yng nghyfanrwydd ei weithrediad fel na fyddai'n ymarferol nodi ei lwybr at ddibenion Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru (gweler adran 5(1)(b)]);

(b) mae cyfeiriadau at "gwasanaeth bysiau lleol safonol" yn gyfeiriadau at wasanaeth bysiau lleol nad yw'n wasanaeth bysiau lleol hyblyg.

*Amcanion*

## 4 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw i amcanion

(1) Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcanion a ganlyn.

(2) Yr amcan cyntaf yw hybu defnyddio gwasanaethau bysiau lleol.

(3) Yr ail amcan yw gwella'n barhaus ddibynadwyedd, diogelwch, fforddiadwyedd a hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol.

(4) Y trydydd amcan yw gweithio tuag at gynyddu argaeledd gwasanaethau bysiau lleol.

(5) Y pedwerydd amcan yw gweithio tuag at gyflawni system drafnidiaeth integredig.

(6) Y pumed amcan yw hwyluso siwrneiau teithwyr sy’n golygu defnyddio mwy nag un gwasanaeth bysiau lleol.

(7) Y chweched amcan yw lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr a gwastraff o drafnidiaeth ffyrdd.

(8) Yn yr adran hon, mae i “nwy tŷ gwydr” yr un ystyr ag yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3).

## RHAN 2

## SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION CYMRU SY’N YMWNEUD Â GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

*Dyletswyddau craidd Gweinidogion Cymru*

### 5 Gwasanaethau bysiau lleol: dyletswyddau craidd

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) penderfynu ar y gwasanaethau bysiau lleol y maent yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddiben sicrhau trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru,

(b) cyhoeddi cynllun (i’w alw’n “Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru”) yn nodi manylion allweddol y gwasanaethau bysiau lleol hynny, ac

(c) i’r graddau y bo’n rhesymol ymarferol, sicrhau bod y gwasanaethau bysiau lleol hynny yn cael eu darparu.

(2) At ddibenion is-adran (1)(b), manylion allweddol gwasanaeth yw—

(a) yn achos gwasanaeth bysiau lleol safonol, y llwybr a’r prif fannau esgyn a mannau disgyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddibenion darparu’r gwasanaeth hwnnw;

(b) yn achos gwasanaeth bysiau lleol hyblyg—

(i) yr ardal ddaearyddol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol i’r gwasanaeth hwnnw weithredu ynddi;

(ii) unrhyw rannau o’r llwybr y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol iddynt fod yn sefydlog, at ddibenion darparu’r gwasanaeth hwnnw;

(iii) unrhyw fannau esgyn neu unrhyw fannau disgyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol iddynt fod yn sefydlog, at ddibenion darparu’r gwasanaeth hwnnw.

(3) Am ddarpariaeth bellach sy’n ymwneud â Chynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, gweler adrannau 6 i 8.

(4) Am eithriad i’r ddyletswydd yn is-adran (1)(c) yn achos gwasanaethau trawsffiniol, gweler adran 19 (gwasanaethau trawsffiniol a’r ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu darparu).

(5) Pan fo’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaeth bysiau lleol yn cael ei ddarparu, cânt sicrhau’r gwasanaeth hwnnw drwy wneud unrhyw un neu ragor o’r canlynol—

(a) ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 9;

(b) rhoi trwydded mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 11;

(c) darparu gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 17;

(d) dibynnu ar wasanaeth a ddarperir fel y'i disgrifir yn adran 18.

*Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru*

**6 Llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru**

(1) Cyn cyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru o dan adran 5(1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft o'r Cynllun.

(2) Wrth lunio'r drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru geisio barn pob awdurdod lleol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, wrth lunio'r drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, roi sylw i bob un o'r canlynol—

(a) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;

(b) pob cynllun trafnidiaeth rhanbarthol sy'n cael effaith o dan adran 109A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p.38).

(4) Ar ôl llunio'r drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn cyhoeddi'r Cynllun, ymgynghori â phob un o'r personau a ganlyn ar y drafft—

(a) pob awdurdod lleol;

(b) pob cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(c) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(d) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(e) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau cyflogeion gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(f) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu sy'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(g) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Ar ôl ymgynghori â'r personau hynny ar y drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun o dan adran 5(1)(b) naill ai yn nhermau'r drafft neu, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gan roi sylw i unrhyw farn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad, mewn termau eraill.

(6) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru o dan adran 5(1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ei osod gerbron Senedd Cymru.

(7) Caniateir bodloni'r gofyniad a osodir gan is-adran (1) i lunio drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru drwy ddrafft a lunnir cyn i'r adran hon ddod i rym.

(8) Caniateir bodloni'r gofyniad a osodir gan is-adran (2) i Weinidogion Cymru geisio barn wrth lunio drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru drwy geisio barn cyn i'r adran hon ddod i rym.

(9) Caniateir bodloni'r gofyniad a osodir gan is-adran (4) i ymgynghori ar ddrafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym.

**7 Adolygu a diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru yn barhaus.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt wneud unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru y maent yn ystyried ei fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau i nodi'r manylion allweddol y cyfeirir atynt yn adran 5(2);

(b) cânt wneud unrhyw ddiwygiad arall i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Ond nid yw is-adran (2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru er mwyn adlewyrchu unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol a fyddai (oni bai am yr is-adran hon) yn gwneud diwygio'r Cynllun yn ofynnol, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried na fydd y cyfnod y bydd y camau hynny'n cael effaith yn fwy na 14 o ddiwrnodau.

(4) Wrth ystyried a ddylid diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru a natur unrhyw ddiwygiad, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i bob un o'r canlynol—

(a) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;

(b) os ydynt yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynllun trafnidiaeth rhanbarthol y pwyllgor hwnnw sy'n cael effaith o dan adran 109A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38).

(5) Ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru diwygiedig.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ar ôl y dyddiad diweddaraf y'i gosodwyd gerbron Senedd Cymru (naill ai o dan yr adran hon neu o dan adran 6) rhaid iddynt, o fewn y cyfnod o 13 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodwyd y Cynllun gerbron Senedd Cymru yn fwyaf diweddar, osod gerbron Senedd Cymru—

(a) copi pellach o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, a

(b) datganiad sy'n nodi'r gwahaniaethau rhwng y copi pellach hwnnw o'r Cynllun, a'r copi blaenorol o'r Cynllun a osodwyd gerbron Senedd Cymru.

(7) Mae adran 8 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru.

**8 Darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei wneud ("diwygiad arfaethedig"), oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) mai bychan yn unig fyddai effaith y diwygiad arfaethedig ar y ddarpariaeth o wasanaethau bysiau lleol, neu

(b) na fyddai'n rhesymol ymarferol cynnal ymgynghoriad ar y diwygiad arfaethedig fel y'i disgrifir yn is-adran (4).

(2) Cyn gwneud y diwygiad arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru sy'n ymgorffori'r diwygiad arfaethedig (y "Cynllun drafft diwygiedig").

(3) Wrth lunio'r Cynllun drafft diwygiedig, rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod lleol, geisio barn yr awdurdod hwnnw.

(4) Ar ôl llunio'r Cynllun drafft diwygiedig, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud y diwygiad arfaethedig i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, ymgynghori â phob un o'r personau a ganlyn ar y diwygiad arfaethedig—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod lleol, yr awdurdod hwnnw;

(b) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1), y pwyllgor hwnnw;

(c) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, yr awdurdod hwnnw;

(d) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(e) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau cyflogeion gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(f) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt, neu sy'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(g) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) At ddibenion yr ymgynghoriad hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu copi o'r Cynllun drafft diwygiedig i bob un o'r personau hynny.

(6) Ar ôl ymgynghori â'r personau hynny ar y diwygiad arfaethedig, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru naill ai yn nhermau'r Cynllun drafft diwygiedig neu, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gan roi sylw i unrhyw farn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad, mewn termau eraill.

(7) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at "gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt", mewn perthynas ag ymgynghori ar ddiwygiad arfaethedig, yn gyfeiriadau at wasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'r diwygiad arfaethedig yn effeithio arnynt.

*Contractau gwasanaeth bysiau lleol*

**9 Contractau gwasanaeth bysiau lleol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, ymrwymo i gytundeb o dan yr adran hon (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "contract gwasanaeth bysiau lleol") mewn perthynas â gwasanaeth.

(2) Contract yw contract gwasanaeth bysiau lleol, mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, sy'n nodi telerau—

(a) y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r hawl i berson o fewn is-adran (3) i weithredu'r gwasanaeth yn unol â hwy, a

(b) y mae'r person hwnnw'n ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â hwy.

(3) Y personau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) person sy'n ddeiliad trwydded bysiau cymunedol;

(b) person sy'n ddeiliad trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

(4) Yn achos contract gwasanaeth bysiau lleol yr ymrwymir iddo â pherson o fewn is-adran (3)(a) mewn perthynas â gwasanaeth sy'n wasanaeth bysiau cymunedol, rhaid i'r telerau a bennir yn y contract ei gwneud yn ofynnol—

(a) i'r gwasanaeth o dan sylw gael ei ddarparu fel gwasanaeth bysiau cymunedol, a

(b) i bob cerbyd a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio felly o dan y drwydded bysiau cymunedol ac yn unol â thelerau'r drwydded honno.

(5) Nid yw'r cyfeiriad yn is-adran (3)(b) at drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys trwydded y mae amod ynghlwm wrthi o dan adran 26(1A) o Ddeddf 1985 (pŵer comisiynydd traffig i roi amodau ynghlwm wrth drwyddedau) sy'n gwahardd y deiliad rhag defnyddio cerbydau o dan y drwydded i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol o bob disgrifiad, neu o ddisgrifiad a bennir yn yr amod.

**10 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch contractau gwasanaeth bysiau lleol**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch telerau y mae rhaid eu cynnwys mewn contract gwasanaeth bysiau lleol.

(2) Caiff y ddarpariaeth honno ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a ganlyn (ymhlith materion eraill)—

(a) prydlondeb, dibynadwyedd a diogelwch;

(b) amlder ac amseru;

(c) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) mannau esgyn a mannau disgyn;

(f) archebu siwrneiau;

(g) cadw cofnodion;

(h) cerbydau (gan gynnwys cyfleusterau sydd i'w darparu a gwybodaeth sydd i'w harddangos ar gerbydau), allyriadau cerbydau, a mathau o danwydd neu bŵer;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) siwrneiau teithwyr sy'n golygu teithio ar fwy nag un gwasanaeth bysiau lleol, neu deithio ar wasanaeth bysiau lleol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr neu wasanaethau adran 19;

(k) tocynnu, taliadau teithio, a sut y caniateir dangos tystiolaeth o hawl i deithio;

(l) addysg a hyfforddiant;

(m) rhyngweithio â chwsmeriaid, gan gynnwys mewn cysylltiad ag adborth gan gwsmeriaid, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a digwyddiadau;

(n) cydymffurfiaeth â gofynion statudol;

(o) cymhellion ar gyfer gwella ansawdd gwasanaeth;

(p) cyfleusterau ac amwynderau sydd i'w darparu i unrhyw berson;

(q) taliadau i unrhyw berson.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) nodi ffurf safonol ar gyfer telerau y mae rhaid eu cynnwys mewn contract gwasanaeth bysiau lleol;

(b) rhagnodi amgylchiadau pan ganiateir defnyddio'r ffurf safonol honno neu pan fo rhaid ei defnyddio mewn contract gwasanaeth bysiau lleol.

*Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol*

**11 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y gofynion yn is-adran (3) wedi eu bodloni, cânt (pa un ai at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, neu fel arall) roi trwydded o dan yr adran hon i berson o fewn is-adran (4).

(2) Trwydded yw trwydded a roddir o dan yr adran hon (y cyfeirir ati yn y Ddeddf hon fel "trwydded gwasanaeth bysiau lleol"), mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, y mae'r person y rhoddir y drwydded iddo wedi ei awdurdodi oddi tani i ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn cael effaith.

(3) Y gofynion yw na fyddai caniatáu'r drwydded—

(a) yn cael effaith andwyol sylweddol ar wasanaeth bysiau lleol a ddarperir o dan gontract gwasanaeth bysiau lleol, neu a ddarperir gan Weinidogion Cymru o dan adran 17;

(b) yn anghyson â'r polisïau a'r cynigion a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

(4) Y personau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) person sy'n ddeiliad trwydded bysiau cymunedol;

(b) person sy'n ddeiliad trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

(5) Nid yw'r cyfeiriad yn is-adran (4)(b) at drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys trwydded y mae amod ynghlwm wrthi o dan adran 26(1A) o Ddeddf 1985 (pŵer comisiynydd traffig i roi amodau ynghlwm wrth drwyddedau) sy'n gwahardd y deiliad rhag defnyddio cerbydau o dan y drwydded i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol o bob disgrifiad, neu o ddisgrifiad a bennir yn yr amod.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru roi trwydded y mae amodau ynghlwm wrthi (am ddarpariaeth bellach ynghylch amodau gweler adran 13).

**12 Cyfnod y mae trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael effaith**

(1) Rhaid i drwydded gwasanaeth bysiau lleol bennu'r cyfnod y mae'n cael effaith .

(2) Mae trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn peidio â chael effaith—

(a) pan ddaw'r cyfnod a bennir o dan is-adran (1) i ben, neu

(b) os caiff ei dirymu o dan adran 15 cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(3) Nid yw trwydded gwasanaeth bysiau lleol sydd wedi ei hatal dros dro o dan adran 15 yn cael unrhyw effaith yn ystod unrhyw gyfnod y mae'r ataliad dros dro yn cael effaith .

**13 Amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol**

(1) Yn achos trwydded gwasanaeth bysiau lleol a roddir i berson o fewn adran 11(4)(a) mewn perthynas â gwasanaeth sy'n wasanaeth bysiau cymunedol, rhaid i Weinidogion Cymru roi amod ynghlwm wrth y drwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol—

(a) i'r gwasanaeth o dan sylw gael ei ddarparu fel gwasanaeth bysiau cymunedol, a

(b) i bob cerbyd a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio felly o dan y drwydded bysiau cymunedol ac yn unol â thelerau'r drwydded honno.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch amodau pellach y mae rhaid eu rhoi ynghlwm wrth drwydded gwasanaeth bysiau lleol.

(3) Caiff y ddarpariaeth honno ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a ganlyn (ymhlith materion eraill)—

(a) prydlondeb, dibynadwyedd a diogelwch;

(b) amlder ac amseru;

(c) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) mannau esgyn a mannau disgyn;

(f) archebu siwrneiau;

(g) cadw cofnodion;

(h) cerbydau (gan gynnwys cyfleusterau sydd i'w darparu a gwybodaeth sydd i'w harddangos ar gerbydau), allyriadau cerbydau, a mathau o danwydd neu bŵer;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) siwrneiau teithwyr sy’n golygu teithio ar fwy nag un gwasanaeth bysiau lleol, neu deithio ar wasanaeth bysiau lleol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr neu wasanaethau adran 19;

(k) tocynnu, taliadau teithio, a sut y caniateir dangos tystiolaeth o hawl i deithio;

(l) addysg a hyfforddiant;

(m) rhyngweithio â chwsmeriaid, gan gynnwys mewn cysylltiad ag adborth gan gwsmeriaid, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a digwyddiadau;

(n) cydymffurfiaeth â gofynion statudol;

(o) cymhellion ar gyfer gwella ansawdd gwasanaeth;

(p) cyfleusterau ac amwynderau sydd i’w darparu i unrhyw berson;

(q) taliadau i unrhyw berson.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (2), cânt ar unrhyw adeg ar ôl i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei roi, drwy roi hysbysiad o hyn i ddeiliad y drwydded a chydag effaith o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad—

(a) diwygio amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded;

(b) dileu amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded;

(c) rhoi amodau newydd ynghlwm wrth y drwydded.

(5) Caniateir i’r dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (4) fod naill ai’r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad arno, neu ddyddiad ar ôl hynny.

**14 Ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon, ymhlith pethau eraill, wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) pryd a sut y mae cais i’w wneud;

(c) ffioedd sy’n daladwy mewn cysylltiad â chais.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cais am drwydded gwasanaeth bysiau lleol, rhaid iddynt roi hysbysiad o’u rhesymau i’r ceisydd.

**15 Dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a’u hatal dros dro**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu trwydded gwasanaeth bysiau lleol neu ei hatal dros dro drwy roi hysbysiad i’r perwyl hwn i’r person y rhoddwyd y drwydded iddo (“deiliad y drwydded”).

(2) Rhaid i’r hysbysiad bennu—

(a) y sail y caiff y drwydded ei dirymu neu ei hatal dros dro arni;

(b) pryd y mae’r diddymiad neu’r ataliad dros dro yn cymryd effaith;

(c) yn achos atal trwydded dros dro, y cyfnod y mae'r ataliad dros dro yn cael effaith (y "cyfnod atal dros dro"), a'r amodau y mae angen cydymffurfio â hwy cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(3) Y seiliau y caniateir i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei dirymu neu ei hatal dros dro arnynt yw—

(a) y bu methiant i gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth y drwydded;

(b) y byddai parhau i ddarparu'r gwasanaeth a bennir yn y drwydded yn peryglu aelodau'r cyhoedd;

(c) yn achos trwydded y mae amod wedi ei roi ynghlwm wrthi o dan adran 13(1), fod deiliad y drwydded wedi peidio â bod yn ddeiliad trwydded bysiau cymunedol;

(d) yn achos trwydded nad oes amod wedi ei roi ynghlwm wrthi o dan adran 13(1)—

(i) bod deiliad y drwydded wedi peidio â bod yn ddeiliad trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, neu

(ii) bod amod wedi ei roi ynghlwm wrth y drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan ddeiliad y drwydded gwasanaethau bysiau lleol, o dan adran 26(1A) o Ddeddf 1985, sy'n gwahardd deiliad y drwydded honno rhag defnyddio cerbydau o dan y drwydded gweithredwr cerbydau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol o bob disgrifiad, neu o ddisgrifiad a bennir yn yr amod;

(e) bod y cyfnod atal dros dro a bennir mewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (1) mewn perthynas â'r drwydded wedi dod i ben heb gydymffurfiaeth â'r amodau a bennir o dan is-adran (2)(c).

(4) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (5)(b), caiff hysbysiad a roddir o dan is-adran (1) bennu o dan is-adran (2)(b) fod y dirymiad trwydded neu'r ataliad dros dro yn cymryd effaith naill ai ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, neu ar ddyddiad ar ôl hynny.

(5) Caiff rheoliadau—

(a) addasu is-adran (3);

(b) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae dirymiad trwydded gwasanaeth bysiau lleol neu ataliad dros dro yn cymryd effaith.

**16 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol: apelau**

(1) Caiff person y mae ei gais am drwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael ei wrthod apelio yn erbyn y gwrthodiad.

(2) Caiff person y rhoddwyd iddo drwydded gwasanaeth bysiau lleol apelio yn erbyn unrhyw amod sydd ynghlwm wrth y drwydded (gan gynnwys yn erbyn diwygiad i amod).

(3) Caiff person y rhoddwyd iddo drwydded gwasanaeth bysiau lleol sy'n cael ei dirymu apelio yn erbyn dirymu'r drwydded.

(4) Caiff person y rhoddwyd iddo drwydded gwasanaeth bysiau lleol sy'n cael ei hatal dros dro apelio yn erbyn—

(a) yr ataliad dros dro;

(b) y cyfnod a bennir o dan adran 15(2)(c);

(c) yr amodau a bennir o dan adran 15(2)(c).

(5) Mae apêl i'w dwyn gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

(6) Ar apêl, caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) cadarnhau'r penderfyniad y dygir yr apêl mewn perthynas ag ef,

(b) diddymu'r penderfyniad, neu

(c) rhoi penderfyniad arall yn lle'r penderfyniad y dygir yr apêl mewn perthynas ag ef.

(7) Yn is-adran (2), nid yw cyfeiriadau at amodau yn cynnwys cyfeiriad at amod sydd wedi ei roi ynghlwm wrth drwydded gwasanaeth bysiau lleol yn unol ag adran 13(1).

*Gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Weinidogion Cymru*

**17 Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau lleol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, ddarparu gwasanaeth bysiau lleol os ydynt wedi eu bodloni y byddai gwneud hynny yn ffordd fwy effeithiol o gyflawni'r ddyletswydd honno nag ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 9 mewn perthynas â'r gwasanaeth.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i wasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau cymunedol.

*Dibynnu ar wasanaethau penodol*

**18 Dibynnu ar wasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau eraill penodol at ddibenion dyletswydd adran 5(1)(c)**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, ddibynnu ar wasanaeth o fewn is-adran (2) a ddarperir gan unrhyw berson (heb, yn achos gwasanaeth y mae'r pwerau yn adran 9 neu 11 ar gael mewn perthynas ag ef, ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol na rhoi trwydded gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth).

(2) Y gwasanaethau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) gwasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau cymunedol;

(b) gwasanaeth bysiau lleol a ddarperir fel y'i disgrifir yn adran 46(1) o Ddeddf 1981 (teithwyr sy'n talu am deithio ar fysiau ysgol);

(c) gwasanaeth adran 19;

(d) gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1.

*Gwasanaethau trawsffiniol*

**19 Gwasanaethau trawsffiniol a'r ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu**

(1) At ddibenion yr adran hon—

(a) mae gwasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau lleol safonol yn wasanaeth trawsffiniol os—

(i) yw llwybr y gwasanaeth wedi ei nodi yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, a

(ii) yw rhan o'r llwybr hwnnw yng Nghymru a rhan ohono yn Lloegr;

(b) mae gwasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau lleol hyblyg yn wasanaeth trawsffiniol os—

(i) yw ardal weithredu ddaearyddol y gwasanaeth wedi ei nodi yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, a

(ii) yw rhan o'r ardal honno yng Nghymru a rhan ohoni yn Lloegr;

(c) mae cyfeiriadau at wasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn gyfeiriadau at wasanaeth trawsffiniol i'r graddau—

(i) yn achos gwasanaeth bysiau lleol safonol, y mae ei lwybr yn Lloegr;

(ii) yn achos gwasanaeth bysiau lleol hyblyg, y mae ei ardal weithredu yn Lloegr.

(2) Nid yw adran 5(1)(c) i'w thrin fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn cael ei ddarparu os ydynt yn ystyried bod yr amod yn is-adran (3) wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth.

(3) Yr amod yw y caiff yr anghenion trafnidiaeth perthnasol eu diwallu heb i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn cael ei ddarparu.

(4) At y diben hwn, ystyr "yr anghenion trafnidiaeth perthnasol" yw'r anghenion trafnidiaeth yng Nghymru a fyddai'n cael eu diwallu pe bai Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn cael ei ddarparu.

(5) Wrth ystyried a yw'r amod yn is-adran (3) wedi ei fodloni, nid oes ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw ddarpariaeth a sicrheir gan gyngor sir yn Lloegr o dan adran 63 o Ddeddf 1985 (swyddogaethau cynghorau lleol mewn perthynas â thrafnidiaeth).

*Gofynion adrodd*

**20 Adroddiad ar gynnydd tuag at amcanion adran 4**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o dan yr adran hon, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, yn nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r ffordd y mae arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon gan Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod adrodd wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn adran 4, a'r graddau y mae arfer y swyddogaethau hynny ganddynt wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion hynny.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd—

(a) cyhoeddi'r adroddiad o dan yr adran hon sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd hwnnw, a

(b) gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.

(3) Yn yr adran hon, ystyr y "cyfnod adrodd" yw—

(a) yn achos y cyfnod adrodd cyntaf, y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 5(1)(c) i rym (at unrhyw ddiben neu ar gyfer unrhyw ardal);

(b) yn achos cyfnodau adrodd dilynol, cyfnodau olynol o bedair blynedd.

(4) At ddibenion is-adran (1), nid yw swyddogaethau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys swyddogaeth sy’n arferadwy o dan adran 43.

## RHAN 3

## CYFYNGIAD AR DDARPARU GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

### 21 Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol

(1) Ni chaniateir darparu gwasanaeth bysiau lleol yng Nghymru oni bai—

(a) ei fod yn cael ei ddarparu yng Nghymru o dan gontract gwasanaeth bysiau lleol,

(b) ei fod yn cael ei ddarparu yng Nghymru o dan drwydded gwasanaeth bysiau lleol, neu

(c) ei fod yn cael ei ddarparu yng Nghymru gan Weinidogion Cymru o dan adran 17.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys i wasanaeth bysiau lleol—

(a) sy’n wasanaeth bysiau cymunedol, neu

(b) sy’n cael ei ddarparu fel y’i disgrifir yn adran 46(1) o Ddeddf 1981 (teithwyr sy’n talu am deithio ar fysiau ysgol).

(3) Caiff rheoliadau ddiwygio’r adran hon at ddibenion darparu bod is-adran (1) yn gymwys neu nad yw’n gymwys i ddisgrifiad penodedig o wasanaeth bysiau lleol, neu ei bod yn gymwys neu nad yw’n gymwys i wasanaeth bysiau lleol a ddarperir mewn modd penodedig.

### 22 Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu comisiynydd traffig am unrhyw achos o dorri’r cyfyngiad

Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod person yn gweithredu gwasanaeth bysiau lleol neu wedi gweithredu gwasanaeth o’r fath yn groes i adran 21 rhaid iddynt hysbysu comisiynydd traffig.

### 23 Gorfodi’r cyfyngiad

(1) Os yw comisiynydd traffig wedi ei fodloni—

(a) bod person yn gweithredu gwasanaeth bysiau lleol neu wedi gweithredu gwasanaeth o’r fath yn groes i adran 21, a

(b) wrth weithredu’r gwasanaeth hwnnw, fod y person wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i osgoi torri gofynion yr adran honno,

caiff y comisiynydd traffig wneud un neu ragor o orchmynion o dan is-adran (2).

(2) Y gorchmynion yw—

(a) gorchymyn i’r person dalu, o fewn amser a bennir yn y gorchymyn, gosb o unrhyw swm y mae’r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau’r achos, ond nad yw’n fwy na’r terfyn uchaf;

(b) gorchymyn o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir mewn rheoliadau.

(3) Os yw person yn methu â chydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran (2), a bod yr amod yn is-adran (5) wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gorchymyn, caiff comisiynydd traffig wneud gorchymyn o dan yr is-adran hon yn gorchymyn i'r person dalu, o fewn cyfnod a bennir yn y gorchymyn, gosb ychwanegol.

(4) Caiff y gosb ychwanegol fod yn unrhyw swm y mae'r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau'r achos, ond ni chaiff fod yn fwy na 110% o'r terfyn uchaf.

(5) Yr amod yw naill ai—

(a) ar apêl o dan adran 24 yn erbyn gwneud y gorchymyn, bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau, neu

(b) bod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl i'r Uwch Dribiwnlys o dan adran 24 yn erbyn gwneud y gorchymyn wedi dod i ben heb fod apêl wedi ei dwyn.

(6) Ar ôl gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) neu (3), rhaid i'r comisiynydd traffig roi hysbysiad i—

(a) y person y mae'r gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef, a

(b) Gweinidogion Cymru.

(7) Ac eithrio i unrhyw raddau y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau o dan yr adran hon, mae swm y gorchmynnir ei dalu o dan is-adran (2) neu (3) yn daladwy i Weinidogion Cymru ac yn adenilladwy, ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

(8) Caiff rheoliadau o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth ynghylch gorchmynion o dan yr adran hon gan gynnwys darpariaeth ynghylch (ymhlith pethau eraill)—

(a) ffurf a chynnwys gorchymyn;

(b) y weithdrefn sydd i'w dilyn gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â gorchymyn.

(9) Y terfyn uchaf, at ddibenion cosb y gorchmynnir i berson ei thalu o dan yr adran hon, yw—

(a) yn achos person sydd, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, y swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm nifer y cerbydau y mae'r person wedi ei drwyddedu i'w defnyddio o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan y person ar yr adeg berthnasol, â'r naill neu'r llall o—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550;

(b) yn achos person nad yw, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550.

(10) At ddibenion is-adran (9), yr "adeg berthnasol" yw—

(a) yn achos gorchymyn a wneir o dan is-adran (2)(a), yr adeg y gwneir y gorchymyn hwnnw;

(b) yn achos gorchymyn a wneir o dan is-adran (3) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran (2), yr adeg y gwnaed y gorchymyn hwnnw o dan is-adran (2).

**24 Gorfodi cyfyngiad: apelau**

(1) Caiff person y mae gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan is-adran (2) neu (3) o adran 23 apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn gwneud y gorchymyn.

(2) Ar apêl yn erbyn gwneud gorchymyn, caiff yr Uwch Dribiwnlys—

(a) cadarnhau'r gorchymyn;

(b) diddymu'r gorchymyn;

(c) rhoi gorchymyn arall yn lle'r gorchymyn a wnaed.

## RHAN 4

## GWYBODAETH A DATA

*Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion arfer swyddogaethau penodol*

**25 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru gan weithredwyr presennol a chyn-weithredwyr at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2 neu Ran 3**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad o dan yr adran hon i—

(a) person sy'n gweithredu gwasanaeth bysiau lleol neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath,

(b) person sy'n gweithredu gwasanaeth adran 19 neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath, neu

(c) person sy'n gweithredu gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath,

yn ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu i Weinidogion Cymru wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw.

(2) O ran yr hysbysiad—

(a) rhaid iddo nodi sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei darparu;

(b) ni chaiff ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfnod sy'n dod i ben fwy na phum mlynedd cyn y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, nac sy'n ymwneud â dyddiad sy'n fwy na phum mlynedd cyn y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(3) Ni chaniateir pennu gwybodaeth yn yr hysbysiad oni bai—

(a) bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen yr wybodaeth at ddiben arfer swyddogaeth berthnasol, a

(b) bod yr wybodaeth o fath a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) amserlenni ac amlderau gwasanaeth;

(b) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(c) mannau esgyn a mannau disgyn;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) archebu siwrneiau;

(f) taliadau teithio, tocynnau, refeniw a chostau sy’n gysylltiedig â gwasanaethau;

(g) mathau o siwrneiau a nifer y siwrneiau a wneir;

(h) niferoedd teithwyr;

(i) cerbydau a’r defnydd ohonynt;

(j) cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr ar gerbydau;

(k) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(l) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig) sydd ar gael yng nghyffiniau mannau esgyn a mannau disgyn;

(m) cyfansoddiad y gweithlu;

(n) siwrneiau, niferoedd teithwyr a refeniw a ragfynegir.

(5) O ran y rheoliadau—

(a) rhaid iddynt wneud darpariaeth ynghylch apelau;

(b) cânt wneud darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y defnydd o wybodaeth gan bersonau y’i datgelir iddynt).

(6) At ddibenion yr adran hon, “swyddogaeth berthnasol” yw—

(a) swyddogaeth Gweinidogion Cymru sy’n arferadwy o dan Ran 2 neu Ran 3;

(b) swyddogaeth Gweinidogion Cymru sydd fel arall yn arferadwy mewn perthynas â chontract gwasanaeth bysiau lleol, trwydded gwasanaeth bysiau lleol, neu wasanaeth y dibynnir arno o dan adran 18.

(7) Yn y Rhan hon, mae i “llwybr teithio llesol” a “cyfleusterau cysylltiedig” yr ystyr a roddir yn adran 2 o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (dccc 7).

**26 Darparu gwybodaeth am seilwaith a materion eraill penodol i Weinidogion Cymru gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad o dan yr adran hon i awdurdod lleol neu gyngor cymuned yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod neu’r cyngor ddarparu i Weinidogion Cymru wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i’r hysbysiad nodi sut a phryd y mae’r wybodaeth i gael ei darparu.

(3) Ni chaniateir pennu gwybodaeth yn yr hysbysiad oni bai—

(a) bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen yr wybodaeth at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2, a

(b) bod yr wybodaeth o fath a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) llwybrau;

(b) mannau lle y caniateir i deithwyr esgyn i wasanaethau bysiau a disgyn oddi arnynt;

(c) seilwaith, gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth ffyrdd a seilwaith priffyrdd;

(d) gweithredu gwasanaethau bysiau;

(e) argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr a gwasanaethau adran 19;

(f) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig).

*Gwybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd*

**27 Dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cyhoedd**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i sicrhau bod yr wybodaeth a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn cael ei rhoi i'r cyhoedd.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth o fewn is-adran (3).

(3) Y gwasanaethau yw—

(a) gwasanaeth bysiau lleol;

(b) gwasanaeth adran 19 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 18;

(c) gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 18.

(4) Mae'r wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau yn cynnwys gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) amserlenni ac amlderau gwasanaeth;

(b) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(c) mannau esgyn a mannau disgyn;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) archebu siwrneiau;

(f) taliadau teithio a thocynnau;

(g) gweithredu gwasanaethau, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(i) lleoliad cerbydau;

(ii) yr amser y mae gwasanaeth wedi cyrraedd neu y disgwylir iddo gyrraedd cyrchfan;

(h) cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr ar gerbydau;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig) sydd ar gael yng nghyffiniau mannau esgyn a mannau disgyn.

(5) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth sy'n pennu sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei rhoi i'r cyhoedd.

**28 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion adran 27**

(1) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol—

(a) i berson sy'n gweithredu gwasanaeth bysiau lleol,

(b) i berson sy'n gweithredu gwasanaeth adran 19 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 18, neu

(c) i berson sy'n gweithredu gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 18,

ddarparu gwybodaeth benodedig mewn perthynas â'r gwasanaeth i Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaniateir pennu gwybodaeth yn y rheoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen yr wybodaeth at ddiben y ddyletswydd o dan adran 27(1).

(3) Mae'r wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau yn cynnwys gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) amserlenni ac amlderau gwasanaeth;

(b) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(c) mannau esgyn a mannau disgyn;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) archebu siwrneiau;

(f) taliadau teithio a thocynnau;

(g) gweithredu gwasanaethau, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(i) lleoliad cerbydau;

(ii) yr amser y mae gwasanaeth wedi cyrraedd neu y disgwylir iddo gyrraedd cyrchfan;

(h) cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr ar gerbydau;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig) sydd ar gael yng nghyffiniau mannau esgyn a mannau disgyn.

(4) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth sy'n pennu sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei darparu.

*Braint gyfreithiol*

**29 Darparu gwybodaeth: eithriad ar sail braint gyfreithiol**

Nid yw gofyniad a osodir ar berson o dan adran 25, 26 neu 28 yn gymwys i wybodaeth y byddai gan y person, mewn achos cyfreithiol, hawl i wrthod ei darparu ar sail braint gyfreithiol.

*Gorfodi*

**30 Gorfodi gofynion gwybodaeth**

(1) Os yw comisiynydd traffig wedi ei fodloni bod person sy’n gweithredu gwasanaeth bysiau neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth bysiau, heb esgus rhesymol, wedi methu â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â hysbysiad a roddir o dan adran 25 neu reoliadau a wneir o dan adran 28, caiff y comisiynydd traffig wneud un neu ragor o orchmynion o dan is-adran (2).

(2) Y gorchmynion yw—

(a) gorchymyn i’r person dalu, o fewn amser a bennir yn y gorchymyn, gosb o unrhyw swm y mae’r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau’r achos, ond nad yw’n fwy na’r terfyn uchaf;

(b) gorchymyn o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir mewn rheoliadau.

(3) Os yw person yn methu â chydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran (2), a bod yr amod yn is-adran (5) wedi ei fodloni mewn perthynas â’r gorchymyn, caiff comisiynydd traffig wneud gorchymyn o dan yr is-adran hon yn gorchymyn i’r person dalu, o fewn cyfnod a bennir yn y gorchymyn, gosb ychwanegol.

(4) Caiff y gosb ychwanegol fod yn unrhyw swm y mae’r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau’r achos, ond ni chaiff fod yn fwy na 110% o’r terfyn uchaf.

(5) Yr amod yw naill ai—

(a) ar apêl o dan adran 31 yn erbyn gwneud y gorchymyn, bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau, neu

(b) bod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl i’r Uwch Dribiwnlys o dan adran 31 yn erbyn gwneud y gorchymyn wedi dod i ben heb fod apêl wedi ei dwyn.

(6) Ar ôl gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) neu (3), rhaid i’r comisiynydd traffig roi hysbysiad i—

(a) y person y mae’r gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef, a

(b) Gweinidogion Cymru.

(7) Ac eithrio i unrhyw raddau y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau o dan yr adran hon, mae swm y gorchmynnir ei dalu o dan is-adran (2) neu (3) yn daladwy i Weinidogion Cymru ac yn adenilladwy, ar orchymyn llys, fel pe bai’n daladwy o dan orchymyn llys.

(8) Caiff rheoliadau o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth ynghylch gorchmynion o dan yr adran hon gan gynnwys darpariaeth ynghylch (ymhlith pethau eraill)—

(a) ffurf a chynnwys gorchymyn;

(b) y weithdrefn sydd i’w dilyn gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â gorchymyn.

(9) Y terfyn uchaf, at ddibenion cosb y gorchmynnir i berson ei thalu o dan yr adran hon, yw—

(a) yn achos person a oedd, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, y swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm nifer y cerbydau yr oedd y person wedi ei drwyddedu i'w defnyddio o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddalid gan y person ar yr adeg berthnasol, â'r naill neu'r llall o—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550;

(b) yn achos person nad oedd, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550.

(10) At ddibenion is-adran (9), yr "adeg berthnasol" yw—

(a) yn achos methiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â hysbysiad a roddir o dan adran 25, yr amser y rhoddwyd yr hysbysiad;

(b) yn achos methiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 28, yr amser y methodd y person â chydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

### 31 Gorfodi gofynion gwybodaeth: apelau

(1) Caiff person y mae gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan is-adran (2) neu (3) o adran 30 apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn gwneud y gorchymyn.

(2) Ar apêl yn erbyn gwneud gorchymyn, caiff yr Uwch Dribiwnlys—

(a) cadarnhau'r gorchymyn;

(b) diddymu'r gorchymyn;

(c) rhoi gorchymyn arall yn lle'r gorchymyn a wnaed.

## RHAN 5

## PWERAU A DYLETSWYDDAU AWDURDODAU LLEOL

### 32 Darparu gwasanaethau bysiau gan awdurdodau lleol: dileu'r cyfyngiad

(1) Mae Deddf 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 66 (cyfyngiad ar bwerau cynghorau penodol i weithredu ymgymeriadau bysiau), yn is-adran (1), hepgorer "a county council or county borough council in Wales".

### 33 Dileu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol

Yn Neddf 1985, yn adran 63 (swyddogaethau cynghorau lleol mewn perthynas â thrafnidiaeth teithwyr), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) The duty in subsection (1) does not require a council in Wales to secure the provision of a service that is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

**34 Cymorth ariannol mewn cysylltiad â gwasanaethau bysiau lleol**

(1) Caiff awdurdod lleol roi cymorth ariannol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth bysiau lleol.

(2) Nid yw adran 88(1) o Ddeddf 1985 yn gymwys mewn perthynas â chymorth ariannol a roddir o dan is-adran (1) (ac, yn unol â hynny, nid yw adrannau 89 i 92 o'r Ddeddf honno (rheolau sy'n ymwneud â chytundebau cymhorthdal) yn gymwys).

(3) Yn adran 63 (swyddogaethau cynghorau lleol mewn perthynas â thrafnidiaeth teithwyr) o Ddeddf 1985, yn is-adran (9), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "references to services", mewnosoder "in connection with which financial assistance has been given under section 34 of the Bus Services (Wales) Act 2026 and to services".

## RHAN 6

## AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Trosglwyddo ymgymeriadau*

**35 Cymhwyso Rheoliadau TUPE**

(1) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo trosglwyddiad perthnasol i'w drin fel pe bai'n digwydd at ddibenion Rheoliadau TUPE (i'r graddau na fyddai'n cael ei drin felly fel arall), o ganlyniad i drefniadau a wneir o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â darparu gwasanaethau bysiau lleol.

(2) Rhaid i reoliadau sy'n gwneud darpariaeth o dan is-adran (1) ar gyfer amgylchiadau pan fo trosglwyddiad perthnasol i'w drin fel pe bai'n digwydd at ddibenion Rheoliadau TUPE hefyd wneud darpariaeth i'r trosglwyddiad perthnasol hwnnw gael ei drin fel pe bai'n drosglwyddiad perthnasol, o fewn yr ystyr a roddir i "relevant transfer" yn Rheoliadau TUPE, at ddibenion adrannau 257 a 258 o Ddeddf Pensiynau 2004, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 258 o'r Ddeddf honno.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â chymhwyso Rheoliadau TUPE yn rhinwedd darpariaeth a wneir o dan is-adran (1).

(4) Caiff y ddarpariaeth honno gynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth—

(a) ynghylch y grwpiad trefnedig o adnoddau neu gyflogeion sy'n ddarostyngedig i'r trosglwyddiad perthnasol;

(b) mewn cysylltiad â phenderfynu a yw person wedi ei neilltuo i'r grwpiad trefnedig o adnoddau neu gyflogeion sy'n ddarostyngedig i'r trosglwyddiad perthnasol (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer penodi person i wneud penderfyniad o'r fath, neu ddarpariaeth mewn cysylltiad â hynny);

(c) mewn cysylltiad â phenderfynu, yn achos unrhyw grwpiad trefnedig penodol o adnoddau neu gyflogeion, pwy yw'r person a fydd y trosglwyddai at ddibenion Rheoliadau TUPE (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer penodi person i wneud penderfyniad o'r fath, neu ddarpariaeth mewn cysylltiad â hynny).

(5) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriadau at Reoliadau TUPE yn gyfeiriadau at Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246),

(b) mae cyfeiriadau at “trosglwyddiad perthnasol” yn gyfeiriadau at “relevant transfer” o fewn yr ystyr a roddir i’r term hwnnw yn y Rheoliadau hynny, ac

(c) mae i “grwpiad trefnedig o adnoddau neu gyflogeion” yr un ystyr ag sydd i “organised grouping of resources or employees” yn y Rheoliadau hynny.

*Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestru gwasanaethau â chomisiynydd traffig*

**36 Deddf Trafnidiaeth 1985: dileu gofynion sy’n ymwneud â chofrestru**

(1) Mae Deddf 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 6 (cofrestru gwasanaethau lleol)—

(a) yn is-adran (1), yn lle “or (1D)” rhodder “, (1D) or (1F)”;

(b) ar ôl is-adran (1E) mewnosoder—

“(1F) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X]).

(1G) But for the purposes of subsection (1F), a service that is within subsection (1I) is not to be treated as a local bus service (and is therefore a local service for the purposes of subsection (1)) unless it is—

(a) secured under a local bus service contract entered into under section 9(1) of the Bus Services (Wales) Act 2026, or

(b) a service in respect of which a local bus service permit granted under section 11(1) of that Act has effect.

(1H) For the purposes of subsection (1G)(b), a local bus service permit is to be treated as continuing to have effect throughout any period during which the permit is suspended under section 15(1) of the Bus Services (Wales) Act 2026.

(1I) The services are—

(a) a community bus service (within the meaning given in section 22(1) of this Act);

(b) a service provided as described in section 46(1) of the 1981 Act (fare-paying passengers on school buses).

(1J) In the case of a service that is a standard local bus service for the purposes of the Bus Services (Wales) Act 2026, any part of the service which is provided outside Wales is to be treated as a separate service for the purposes of subsection (1F) (and is therefore not a local bus service for the purposes of that subsection), if there is any stopping place for that part of the service outside Wales.

(1K) In the case of a service that is a flexible local bus service for the purposes of the Bus Services (Wales) Act 2026, any part of its area of operation which is outside Wales is to be treated as a separate service for the purposes of subsection (1F) (and is therefore not a local bus service for the purposes of that subsection)."

*Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu*

**37 Cyfyngu ar y pŵer i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu o dan adran 7 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006**

(1) Mae adran 7 (darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr) o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), ar ôl "public passenger transport services" mewnosoder ", other than a service that is within subsection (1A),".

(3) Ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

*Cyffredinol*

**38 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol Cymreig.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

(3) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol a darpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed.

(4) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (3) yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys y Ddeddf hon).

(5) Mae offeryn statudol Cymreig y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

(6) Mae is-adran (5) yn gymwys i offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 15(5) (dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a'u hatal dros dro);

(b) adran 21(3) (cymhwyso'r cyfyngiad yn adran 21);

(c) adran 23(2)(b) (gorchmynion eraill y caniateir eu gwneud gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â thorri'r cyfyngiad yn adran 21);

(d) adran 23(9)(a)(i) a (b)(i) (penderfynu'r terfyn uchaf ar gyfer cosbau am dorri'r cyfyngiad yn adran 21);

(e) adran 25 (darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2 neu Ran 3);

(f) adran 26 (darparu gwybodaeth am seilwaith a materion eraill i Weinidogion Cymru gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned);

(g) adran 27 (gwybodaeth i gael ei rhoi i'r cyhoedd);

(h) adran 28 (darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion adran 27);

(i) adran 30(2)(b) (gorchmynion eraill y caniateir eu gwneud gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth);

(j) adran 30(9)(a)(i) a (b)(i) (penderfynu'r terfyn uchaf ar gyfer cosbau am fethiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth);

(k) adran 35(1) a (3) (cymhwyso Rheoliadau TUPE);

(l) adran 40(3) (ystyr gweithredwr).

(7) Mae is-adran (5) hefyd yn gymwys i offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth nas crybwyllir yn is-adran (6), pan fo'r rheoliadau yn addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.

(8) Mae unrhyw offeryn statudol Cymreig arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

(9) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur gan y Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

**39 Rhoi hysbysiadau etc.**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon neu mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson neu'n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu "rhoi" neu unrhyw derm arall).

(2) Caniateir rhoi'r hysbysiad neu'r ddogfen arall i'r person o dan sylw mewn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn—

(a) drwy ei roi neu ei rhoi i'r person â llaw;

(b) drwy ei adael neu ei gadael, wedi ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y person, yng nghyfeiriad priodol y person;

(c) drwy ei anfon neu ei hanfon drwy bost rhagdaledig, wedi ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y person yng nghyfeiriad priodol y person;

(d) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, drwy ei anfon neu ei hanfon at y person yn y cyfeiriad hwnnw gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig sy'n cydymffurfio â'r amodau yn is-adran (9).

(3) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (2)(a) at roi hysbysiad neu ddogfen arall i berson â llaw—

(a) os mai corff corfforedig yw'r person, yn gyfeiriad at ei roi neu ei rhoi â llaw i un o swyddogion y corff;

(b) os mai partneriaeth yw'r person, yn gyfeiriad at ei roi neu ei rhoi â llaw i un o'r partneriaid.

(4) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (2)(b) ac (c) at gyfeirio hysbysiad neu ddogfen arall at berson—

(a) os mai corff corfforedig yw'r person, yn gyfeiriad at ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y corff corfforedig, neu at un o swyddogion y corff;

(b) os mai partneriaeth yw'r person, yn gyfeiriad at ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y bartneriaeth, neu at un o'r partneriaid.

(5) Mae is-adrannau (6) i (8) yn gymwys at ddibenion penderfynu cyfeiriad priodol person fel y cyfeirir ato yn is-adrannau (2)(b) ac (c).

(6) Os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiad penodol neu ddogfen arall benodol, y cyfeiriad hwnnw yw cyfeiriad priodol y person at ddibenion cyflwyno'r hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen arall honno.

(7) Yn achos cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall nad yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno mewn perthynas ag ef neu â hi fel y'i disgrifir yn is-adran (6), os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau yn gyffredinol, y cyfeiriad hwnnw yw cyfeiriad priodol y person at ddibenion cyflwyno'r hysbysiad neu'r ddogfen arall.

(8) Yn achos cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall pan na fo'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno fel y'i disgrifir yn is-adran (6) mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen honno, nac wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau yn gyffredinol, cyfeiriad priodol y person at ddibenion cyflwyno'r hysbysiad neu'r ddogfen arall yw—

(a) os mai corff corfforedig yw'r person, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff;

(b) os mai partneriaeth yw'r person, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth;

(c) mewn unrhyw achos arall, preswylfa hysbys ddiwethaf neu fan busnes hysbys diwethaf y person.

(9) Yr amodau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(d) yw bod yr hysbysiad neu'r ddogfen arall—

(a) yn gallu cael ei gyrchu neu ei chyrchu gan y person y'i hanfonir ato,

(b) yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, ac

(c) yn gallu cael ei ddefnyddio neu ei defnyddio ar gyfer cyfeirio ato neu ati yn y dyfodol.

(10) At ddibenion yr adran hon—

(a) prif swyddfa cwmni sydd wedi ei gofrestru y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu bartneriaeth sy'n cyflawni busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw prif swyddfa'r cwmni hwnnw neu'r bartneriaeth honno yn y Deyrnas Unedig;

(b) ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall y corff corfforedig.

**40 Dehongli cyffredinol**

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae “addasu” (“*modify*”) yn cynnwys diwygio, dirymu neu ddiddymu;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr “comisiynydd traffig” (“*traffic commissioner*”) yw comisiynydd traffig ar gyfer Cymru a Lloegr a benodir o dan adran 4 o Ddeddf 1981;

ystyr “Deddf 1981” (“*the 1981 Act*”) yw Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 (p. 14);

ystyr “Deddf 1985” (“*the 1985 Act*”) yw Deddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67);

ystyr “gwasanaeth adran 19” (“*section 19 service*”) yw gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd pan fo pob cerbyd a ddefnyddir yn cael ei ddefnyddio felly o dan drwydded o dan adran 19 o Ddeddf 1985;

mae i “gwasanaeth bysiau cymunedol” yr ystyr a roddir i “community bus service” yn adran 22 o Ddeddf 1985;

ystyr “gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1” (“*Part 3 of Schedule 1 service*”) yw gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd pan fo pob cerbyd a ddefnyddir yn cael ei ddefnyddio felly mewn amgylchiadau pan fo’r amodau a nodir yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 1981 wedi eu bodloni;

mae i “gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr” yr ystyr a roddir i “public passenger transport services” yn adran 7 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5);

ystyr “hysbysiad” (“*notice*”) yw hysbysiad ysgrifenedig;

ystyr “penodedig” ac “a bennir” (“*specified*”) (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall) yw wedi ei bennu mewn rheoliadau;

ystyr “rheoliadau” (“*regulations*”) yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr “Strategaeth Drafnidiaeth Cymru” (“*Wales Transport Strategy*”) yw Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddir o dan adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5);

mae “swyddogaethau” (“*functions*”) yn cynnwys pwerau a dyletswyddau;

mae i “trwydded bysiau cymunedol” yr ystyr a roddir i “community bus permit” yn adran 22 o Ddeddf 1985;

mae i “trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus” yr un ystyr â “PSV operator’s licence” yn Neddf 1981.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at weithredwr, mewn perthynas â gwasanaeth, yn gyfeiriadau at y person, neu at bob un o’r personau, sy’n darparu’r gwasanaeth; ac mae ymadroddion cysylltiedig (gan gynnwys cyfeiriadau at berson sydd wedi gweithredu gwasanaeth) i’w dehongli yn unol â hynny.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch amgylchiadau pan fo person o ddisgrifiad penodedig i’w drin at ddibenion is-adran (2) fel pe bai’n darparu gwasanaeth neu fel pe na bai’n darparu gwasanaeth.

**41 Mynegai o dermau wedi eu diffinio**

Mae'r Tabl isod yn rhestru darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n diffinio neu'n egluro fel arall dermau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon (heblaw term nas defnyddir ond mewn adran lle y mae'r term hwnnw wedi ei ddiffinio neu ei egluro)—

TABL 1

| Term | Darpariaeth berthnasol |
|---|---|
| A bennir ("*specified*") | Adran 40(1) |
| Addasu ("*modify*") | Adran 40(1) |
| Awdurdod lleol ("*local authority*") | Adran 40(1) |
| Comisiynydd traffig ("*traffic commissioner*") | Adran 40(1) |
| Contract gwasanaeth bysiau lleol ("*local bus service contract*") | Adran 9(1) |
| Cyfleusterau cysylltiedig ("*related facilities*") | Adran 25(7) |
| Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("*Welsh Bus Network Plan*") | Adran 5(1)(b) |
| Deddf 1981 ("*the 1981 Act*") | Adran 40(1) |
| Deddf 1985 ("*the 1985 Act*") | Adran 40(1) |
| Gwasanaeth adran 19 ("*section 19 service*") | Adran 40(1) |
| Gwasanaeth bysiau cymunedol ("*community bus service*") | Adran 40(1) |
| Gwasanaeth bysiau lleol ("*local bus service*") | Adran 1 |
| Gwasanaeth bysiau lleol hyblyg ("*flexible local bus service*") | Adran 3(a) |
| Gwasanaeth bysiau lleol safonol ("*standard local bus service*") | Adran 3(b) |
| Gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 ("*Part 3 of Schedule 1 service)* | Adran 40(1) |
| Gwasanaeth trawsffiniol (c*ross-border service*") | Adran 19(1) |
| Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ("*public passenger transport services*") | Adran 40(1) |
| Gweithredwr ("*operator*") | Adran 40(2) |
| Hysbysiad ("*notice*") | Adran 40(1) |
| Llwybr teithio llesol ("*active travel route*") | Adran 25(7) |
| Man disgyn ("*disembarkation point*") | Adran 2(b) |
| Man esgyn ("*embarkation point*") | Adran 2(a) |
| Penodedig ("*specified*") | Adran 40(1) |
| Rheoliadau ("*regulations*") | Adran 40(1) |
| Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ("*Wales Transport Strategy*") | Adran 40(1) |
| Swyddogaethau ("*functions*") | Adran 40(1) |

| | |
|---|---|
| Trwydded bysiau cymunedol (“*community bus permit*”) | Adran 40(1) |
| Trwydded gwasanaeth bysiau lleol (“*local bus service permit*”) | Adran 11(2) |
| Trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (“*PSV operator’s licence*”) | Adran 40(1) |

**42 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu’n briodol at ddibenion y Ddeddf hon, neu o ganlyniad iddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi, cânt drwy reoliadau wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol a darpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) addasu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y’i deddfir neu y’i gwneir, a chan gynnwys y Ddeddf hon).

**43 Dod i rym**

(1) Daw’r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) adrannau 1 i 3;

(b) adran 10;

(c) adran 13(2) a (3);

(d) adran 14(1) a (2);

(e) adran 25(3)(b), (4) a (5);

(f) adran 26(3)(b) a (4);

(g) adran 27(2) i (5);

(h) adran 28;

(i) adran 30(2)(b), (8), a (9)(a)(i) a (9)(b)(i);

(j) adrannau 38 i 44 (gan gynnwys yr adran hon).

(2) Daw’r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) adran 4;

(b) adran 20.

(3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed;

(b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

**44 Enw byr**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026, neu

(b) the Bus Services (Wales) Act 2026.